Fideo: ‘Victorian prison treadmills - the brutal reality and the lessons for today’

Trawsgrifiad

Beth ddylid ei wneud â charcharorion sy'n cael eu dedfrydu i gyfnodau byr yn y carchar? Mae'n gwestiwn sydd wedi poeni llunwyr polisi ym Mhrydain ers y cynnydd yn y nifer sy'n cael eu carcharu am gyfnodau byr ar dro'r 19eg ganrif.

Dros y 200 mlynedd diwethaf, cynhaliwyd llawer o gynlluniau ac arbrofion. Ond un o'r syniadau mwyaf anghyffredin oedd y peiriant hwn. Dyma'r felin draed gosbol, yn union wrth fy ymyl i.

Nid yw'r peiriant yma'n edrych fel y peiriant cerdded y gallech chi fod yn gyfarwydd ag ef, y math y gallech ei weld mewn ystafell ffitrwydd heddiw.

Mae'r peiriant cerdded modern, gyda'r llwyfan symudol fflat yn gwneud ichi gerdded neu redeg.

Mae'r felin draed gosbol yn eich gorfodi i ddringo - sy'n llawer anoddach - gan ddefnyddio grisiau pren wedi'u gosod ar olwyn fawr, y mae'r rhan fwyaf ohoni wedi'i gorchuddio yn fan hyn. Ond os gallwch chi ddychmygu olwyn bochdew, wedi'i hymestyn a'u throi tu chwith allan.

Nid pwrpas y felin draed gosbol oedd gwella eich ffitrwydd. Dyfeisiwyd y felin draed gosbol i wisgo dynion i lawr er mwyn iddynt 'fod yn dda'. I gyflawni dau brif nod y carchar modern - cosbi ac adsefydlu.

Fodd bynnag, erbyn i'r felin draed hon gael ei gosod yma yng Ngharchar Biwmares ar Ynys Môn yng ngogledd Cymru, tua diwedd y 1860au, roedd wedi datblygu'n beiriant cosbi, ac i lawer yn offeryn arteithio.

Roedd Carchar Biwmares yn gweithredu fel carchar lleol rhwng 1829 a 1878. Nid oedd yn garchar mawr iawn, felly roedd y felin draed yma'n gymharol fach. Gallai ddal hyd at 12 o ddynion ar unrhyw un bryd. Ond gallai melinau traed mewn carchardai eraill ddal 20 neu 30 hyd yn oed. Efallai eich bod wedi sylwi ar y

partisiynau sy'n gwahanu'r grisiau i adrannau cyfartal. Erbyn y 1860au, roedd gan y rhan fwyaf o felinau traed bartisiynau i wahanu carcharorion a'u hatal rhag siarad â'i gilydd.

Bob dydd am gyfanswm o chwe awr byddai'r dynion wedi'u cyfyngu i'r bocsys hyn. Byddai pob dyn yn dringo am 15 munud ac wedyn yn cael pum munud o orffwys, gan eistedd ar y meinciau hyn y gellir eu tynnu allan, cyn dechrau eto. Dyma'r wialen y byddai'r dynion yn ei dal, i gadw eu cydbwysedd. Ac roedd pen uchaf yr olwyn wedi'i orchuddio, i gadw'r dynion ar yr un lefel ag echel yr olwyn.

Dros gyfnod o ddiwrnod, byddai pob dyn yn dringo tua 7,500 o droedfeddi. Mae hynny'n gyfystyr â dringo i ben uchaf y Shard, adeilad uchaf Llundain, saith gwaith mewn un diwrnod. Dychmygwch wneud hynny bob dydd am sawl wythnos.

Ac ar ben hynny roedd yna sŵn. Byddai melinau traed fel hon yn cael eu hadeiladu â pheirianwaith trwm, a fyddai'n clencian ac yn gwegian wrth i'r olwyn droi. Dychmygwch sŵn y peiriant. Gwaedd y dynion mewn poen ar ôl cael eu gwthio i'r entrychion. Ac arogl yr ymdrech ddynol. Ac i beth?

Ym Miwmares, byddai'r pŵer a oedd yn cael ei greu gan y felin draed yn cael ei ddefnyddio i bwmpio dŵr o amgylch y carchar. Yn y rhan fwyaf o garchardai eraill, roedd melinau traed yn anghynhyrchiol. Doedden nhw ddim yn gwneud dim byd. Ond nid dyna oedd y bwriad gwreiddiol.

Dyfeisiwyd y felin draed gosbi tua 1818, pan oedd carchardai'n cael eu defnyddio fwyfwy fel mannau cosbi, lle byddai'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau llai difrifol yn cael eu dedfrydu i gyfnod byr o garchar.

Roedd angen rhywbeth addas i gadw'r carcharorion hyn yn brysur. Ni ellid eu gadael yn segur. Roedd angen i'r rhai a oedd wedi'u dedfrydu i gyfnod o 'lafur caled' gael gwaith a oedd yn eu cosbi ac a oedd yn wirioneddol galed.

Ar yr un pryd, roedd diwygwyr yn awyddus i weld carcharorion yn gadael y carchar mewn cyflwr nad oedd yn waeth na'u cyflwr pan aethant i mewn, ac yn ddelfrydol mewn cyflwr gwell. Gelwir hyn heddiw yn adsefydlu.

Roedd y felin draed yn bodloni'r holl ofynion hyn. Roedd yn cadw carcharorion yn brysur a doedd dim angen hyfforddiant arbennig ar ei chyfer. Roedd hefyd yn darparu math o lafur a oedd yn galed ac yn gosb wirioneddol.

Gellid defnyddio'r pŵer a fyddai'n cael ei gynhyrchu o ddringo neu droi'r olwyn i amrywiaeth eang o ddibenion, o falu graean i yrru gwyddiau defnydd. Ar yr un pryd, gallai carcharorion weld cynnyrch eu llafur, a fyddai'n helpu i feithrin etheg gwaith yn eu plith.

Lledaenodd y dechnoleg hon yn gyflym. Erbyn 1824, roedd melinau traed mewn mwy na 50 o garchardai ym Mhrydain a hyd yn oed mwy yn Iwerddon, Gogledd America ac Awstralia.

I ddechrau, teimlai rhai bod y felin draed yn creu manteision. Honnwyd ei bod yn gwella iechyd carcharorion. Fodd bynnag, daeth tystiolaeth i'r amlwg yn fuan o'r niwed a oedd yn cael ei achosi gan y felin draed. Adroddodd llawfeddygon achosion o niwed i'r ysgyfaint, torgest, a gwynegon neu gryd cymalau. Byddai melinau traed diffygiol yn dymchwel, gan achosi anafiadau a marwolaethau.

O fethu gris wrth ddringo, gallai rhywun golli eu coesau neu golli eu bywyd hyd yn oed. Ni ddatblygodd unrhyw gynlluniau ychwaith i ddefnyddio'r llafur er budd economaidd.

Gostyngodd y defnydd o'r felin draed mewn gwledydd eraill, ond ddim yng Nghymru a Lloegr. Yn y 1860au, roedd cenhedlaeth newydd o ddiwygwyr cosbau a oedd yn eiddgar i wneud cyfnodau yn y carchar mor annymunol â phosibl, yn hyrwyddo'r peiriant cosbi hwn yn fawr. Eu dadl oedd, ar ôl rhyw fis o ddringo'r olwyn, pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n dewis troseddu eto a dychwelyd i'r carchar?

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y felin draed yn cael unrhyw effaith ar gyfraddau troseddu nac ar faint y boblogaeth mewn carchardai. Yn lle hynny, achoswyd difrod corfforol a seicolegol parhaol i'r rhai a ddioddefodd gyfundrefn gosbi fwyfwy caled, lle'r oeddent yn cael eu hamddifadu rhag cwsg a bwyd ac yn cael eu gorfodi i ddefnyddio'r felin draed a pheiriannau llafur caled eraill.

Sut y daethom i'r pwynt hwn? Defnyddio artaith yng ngharchardai Prydain?

Rwy'n meddwl mai canlyniad proses gynyddol o wahanu carcharorion oddi wrth weddill cymdeithas ydoedd. Roedd carcharorion yn cael eu hynysu'n gynyddol drwy adeiladu waliau uchel, drwy gyfyngu ar fynediad ymwelwyr, gan gynnwys newyddiadurwyr, a thrwy gadw rheolaeth lem ar yr wybodaeth am yr hyn a oedd yn digwydd y tu ôl i'r waliau.

Ar yr un pryd, roedd carcharorion yn cael eu dad-ddyneiddio'n gynyddol, a hynny'n aml drwy rethreg wleidyddol a bwysleisiai'r angen i fod yn 'gadarn yn erbyn trosedd', ymdeimlad y clywn wleidyddion ac eraill yn ei fynegi'n aml heddiw.

Achosodd hyn i bobl gyffredin golli diddordeb. Doedd neb wir yn malio, ac anghofiwyd am y carcharorion. O ran hyn, mae hanes y felin draed yn stori rybuddiol sy'n arbennig o berthnasol i'r presennol.

Mewn democratiaeth, rydym yn dibynnu ar wyliadwriaeth pleidleiswyr. Mae angen i bobl gyffredin falio am yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i garchardai.

Yn 1898, yn dilyn ymgyrch lwyddiannus gan newyddiadurwyr a chyn-garcharorion, cafodd peiriannau llafur caled eu diddymu'n llwyr yng ngharchardai Cymru a Lloegr. Daeth y melinau traed olaf i stop yn 1901. Mynegodd llunwyr polisi ymrwymiad o'r newydd i anelu at ddau nod wrth garcharu: cosbi ac adsefydlu.

Fodd bynnag, dros y 120 mlynedd diwethaf, mae'r angen neu'r awydd i gosbi wedi parhau i gyfyngu ar gyfleoedd i adsefydlu. Efallai y bydd stori'r felin draed yn ein hysgogi i ofyn, a yw hyd yn oed yn bosibl cosbi ac ailsefydlu? Beth sydd yn bwysicaf? Beth yw pwrpas carchar a rhoi pobl yn y carchar? Ac yn olaf, beth ddylen ni ei wneud â charcharorion sy'n treulio cyfnodau byr yn y carchar?